

## **Siarad Iechyd / Talking Health**

Ymunwch â Chynllun Cynnwys ac Ymgysylltu Siarad Iechyd/Talking Health

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth

### **Sut alla' i gymryd rhan?**

Gallwch gymryd rhan drwy danysgrifio i:

### **Gylchlythyron**

Gallwch dderbyn cylchlythyrau rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am wasanaethau gofal iechyd a gweithgareddau i aelodau

### **Holiaduron / Arolygon**

Gallwch roi eich sylwadau mewn holiaduron neu arolygon, neu rannu'ch barn ar wasanaethau sy'n bwysig i chi

### **Panel Darllenwyr**

Gallwch roi sylwadau am ein gwybodaeth ysgrifenedig megis taflenni er mwyn sicrhau bod ein cyhoeddiadau'n glir a hawdd i gleifion a'r cyhoedd eu deall

### **Grwpiau diddordeb**

Gallwch dderbyn gwahoddiadau i ddigwyddiadau a grwpiau ffocws er mwyn rhannu'ch barn

### **Rhoi sylwadau ar ddogfennau ymgynghori lleol neu genedlaethol**

Gallwch rannu eich barn a'ch sylwadau pan fo gwasanaethau'n cael eu hadolygu

### **Gallwch ddewis:**

- sut yr hoffech gymryd rhan a newid hyn unrhyw bryd
- cael gwybodaeth drwy'r post neu'n electronig

## **Sut alla' i ymuno?**

Bydd angen llenwi ffurflen gais Siarad Iechyd / Talking Health drwy naill ai lenwi'r ffurflen ar lein, neu gysylltu â ni i gael copi.

E-bost: [siaradiechyd@wales.nhs.uk](mailto:siaradiechyd@wales.nhs.uk)

Ffôn: 01554 899 056

Ysgrifennwch atom ni: FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD

Gwefan: [www.siaradiechyd.wales.nhs.uk](http://www.siaradiechyd.wales.nhs.uk)

Os oes angen y daflen hon arnoch mewn fformat arall, er enghraifft Braille neu brint bras, cysylltwch â ni.